***DATGANIAD I'R WASG***

**Coed/Coexist**
**Y Symposiwm - Dydd Sadwrn 14eg o Fedi 2024**

Mae'r artistiaid Junko Mori a John Egan sydd yn byw ym Mhen Llŷn yn dechrau ar brosiect uchelgeisiol yn dwyn y teitl **Coed / Coexist** ac yn trefnu symposiwm fel man cychwyn. Hanfod y prosiect yw tynnu ein sylw at goed a choetiroedd, gan chwilio am gysylltiadau ehangach ynghyd a dyheadau a dibyniaeth ar yr ecosystemau hyn, tra'n cysylltu cymuned, creadigrwydd a stiwardiaeth amgylcheddol. Mae'r prosiect yn ei gyfanrwydd yn anelu at ddathlu'r ardal leol a'r cymunedau sydd wedi'u lleoli ym Mhen Llŷn.

Gan weithio gyda Plas Glyn-y-Weddw, sydd wedi ei leoli ar yr arfordir yn Llanbedrog, mae'r artistiaid yn trefnu symposiwm diwrnod o hyd i'w gynnal ddydd Sadwrn 14 Medi 2024.

Bydd y symposiwm yn gweithredu fel catalydd, gan ddod â naratifau diwylliannol, gwyddonol a lleol ynghyd i rannu a dathlu diddordeb a gwybodaeth unigol. Bwriad y digwyddiad yw sbarduno syniadau ar gyfer camau'r prosiect yn y dyfodol, gan gynnwys dull cydweithredol uchelgeisiol o arddangos gwaith creadigol newydd a chynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned ym Mhlas Glyn-y-Weddw a'r cyffiniau yn 2026.

Gan ddefnyddio coed sydd wedi syrthio neu eu torri ar y penrhyn a choed o'r Winllan ym Mhlas Glyn-y-Weddw, bydd Coed / Coexist yn gwahodd cynigion gan bobl greadigol i wneud gwaith newydd fydd yn ysbrydoli a rhoi llwyfan i grefftwaith a dyfeisgarwch pobl greadigol a meddylwyr lleol.

Bydd y symposiwm yn cael ei hwyluso gan y cyflwynydd teledu a radio Daloni Metcalfe Owen gyda sgyrsiau a chyfraniadau gan; ysgogwyr prosiect Coed / Coexist a'r artistiaid arweiniol, Junko Mori & John Egan; y ffermwr glaswelltir a thirfeddiannwr, Dafydd Wynne Finch; Elusen Plantlife, yr arbenigwr cennau a bryoffytau, David Lamacraft a'r Swyddog Cyswllt Natur, Cassie Crocker; yr artistiaid, David Nash, Manon Awst, Deanne Doddigton Mizen a'r dylunydd tirwedd, Dan Bristow.

**Nodiadau Golygyddol**

1. Symposiwm dydd Sadwrn 14eg Medi,, 10yb - 4yp (gyda opsiwn o fynd ar daith yn y goedwig a brecwast rhwng 8 a 10yb).

2. Junko Mori a John Egan yn prosesu coeden ffawydd wedy syrthio ym Mhlas Glyn-y-Weddw coed/coexist symposium 14.09.24 .
3. Digwyddiad rhad ac am ddim. Rhaglen lawn a chofrestru trwy eventbrite
4. Gellir darganfod manylion am bob siaradwr yma.
5. Delweddau cyhoeddusrwydd
6. Bydd y symposiwm yn cael ei gyflwyno yn ddwyieithog.
7. Bydd y symposiwm yn cael ei ffilmio gan Culture Colony.
8. Bydd ail ran y prosiect yn cynnwys comisiynau newydd gan grŵp dethol o artistiaid fydd yn cael eu dogfennu ynghyd a siwrnai greadigol. Bydd y drydedd rhan yn cynnwys cyflwyniad o waith newydd mewn arddangosfa fydd yn cael ei chynnal ochr yn ochr â chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu.
9. Mae Junko Mori yn cael ei chynrhychioli gan Adrian Sassoon.

**Cysylltiadau'r Wasg**

Gwyn Jones, Cyfarwyddwr, Plas Glyn-y-Weddw - Gwyn@oriel.org.uk
Menna Thomas, Swyddog marchnata a ymgysylltu llawrydd - menna@oriel.org.uk
Alex Boyd Jones, Curadur llawrydd - alex@oriel.org.uk

**Plas Glyn-y-Weddw**

Oriel gelf hynaf Cymru sy'n swatio ym mhentref Llanbedrog ym Mhen Llŷn, mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Adeiladwyd y Plas sydd o gynllun Gothig yn 1857 fel tŷ gweddw i'r Fonesig Elizabeth Jones Parry o Fadryn. Roedd gan deulu Madryn gasgliad sylweddol o gelf a chynlluniwyd y plasty i fod yn gartref pwrpasol i'r casgliad. Yn ddiweddarach, manteisiodd yr entrepreneur o Gaerdydd, Solomon Andrews, ar y cyfle i brynu Plas Glyn-y-Weddw yn arwerthiant Ystâd Madryn ym 1896 a'i droi'n oriel gelf oedd ar agor i'r cyhoedd. Mae Plas Glyn-y-Weddw bellach yn llawer mwy nag oriel gelf; mae'n ganolfan gelf  a threftadaeth o bwysigrwydd cenedlaethol, sy'n cyfuno celf, natur a diwylliant trwy ystod eang o weithgareddau. Mae'r Plas yn gleient refeniw i Gyngor Celfyddydau Cymru ac wedi'i ddewis yn un o'r 9 safle lloeren ledled Cymru ar gyfer cynllun Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru sy'n torri tir newydd.

**Bywgraffiadau yr artistiaid arweiniol**

**Junko Mori**

Ganed yn Yokohama, Japan ym 1974. Datblygodd ei chysyniad craidd, "tyfu ffurfiau trwy ailadrodd" o gwmpas graddio o Goleg Celfyddydau Camberwell, Llundain yn 2000. Symleiddiodd ei hymarfer a datblygodd ffurfiau mwy cerfluniol trwy ddefnyddio technegau gof traddodiadol. Sefydlodd ei gweithdy ym Mhen Llŷn yn 2010, lle mae wedi'i hamgylchynu'n llwyr gan natur ysbrydoledig. Mae ei gweithiau mewn llawer o amgueddfeydd rhyngwladol, gan gynnwys yr Amgueddfa Brydeinig, Amgueddfa Genedlaethol yr Alban ac Amgueddfa Gelf Honolulu.

**John Egan**

Mae Making Little yn deillio o werthfawrogiad dwfn o'r amgylchedd naturiol, ac mae'r dyluniad yn uniongyrchol gysylltiedig ag ef. Mae'n ceisio gwneud gwrthrychau hardd hirhoedlog a darnau untro, a thrwy hynny gloi carbon ym mhob gwrthrych a wneir. Dim ond deunydd o ffynonellau lleol y mae'n eu defnyddio, sy'n golygu bod ôl troed pob gwrthrych yn fach ac yn gweithio mewn cytgord â'u hamgylchedd. Yr amgylchedd a'i effaith arno yw ei egwyddorion arweiniol a dyma sy'n siapio ei ddyluniadau.

**Cyllidwyr / Noddwyr**

**Ecoamgueddfa Llŷn** sydd wedi noddi'r symposiwm hwn.

10.

ecoamgueddfa

***PRESS RELEASE***

**Coed / Coexist**
**The Symposium - Saturday 14 September 2024**

Pen Llŷn artists Junko Mori and John Egan, are embarking on an ambitious project titled *Coed / Coexist* with a symposium as its starting point. The essence of the project draws our attention to trees and woodland, seeking out wider connections, desires and reliance on these ecosystems while connecting community, creativity and environmental stewardship. The whole project aspires to celebrate the local area and the communities based in Pen Llŷn.

Working with Plas Glyn-y-Weddw, on the coast in Llanbedrog, the artists have instigated a day-long symposium on **Saturday 14 September 2024**.

The symposium acts as a catalyst, bringing together cultural, scientific and local narratives to share and celebrate individual interest and knowledge. The event is intended to ignite ideas for the future stages of the project, comprising an ambitious collaborative approach to showcase new creative work and include public and community engagement in and around Plas Glyn-y-Weddw in 2026.

Utilising solely fallen or felled trees from the peninsula and Winllan woods at Plas Glyn-y-Weddw, *Coed / Coexist* will invite proposals from creative people to make new work to inspire and give a platform to the craftsmanship and ingenuity of local creatives and thinkers.

The symposium will be facilitated by television and radio presenter Daloni Metcalfe Owen with talks and contributions by; *Coed / Coexist* project initiators and lead artists, Junko Mori & John Egan; grassland farmer and landowner, Dafydd Wynne Finch; Plantlife Charity's, Lichen and Bryophyte Specialist, David Lamacraft and Nature Connection Officer, Cassie Crocker; artists, David Nash, Manon Awst, Deanne Doddigton Mizen and landscape designer, Dan Bristow.

ENDS

**Editors Notes**

11. Symposium Saturday 14 September, 10am - 4pm (with optional woodland walk and breakfast 8-10am).

12. Junko Mori and John Egan processing a fallen beech tree at Plas Glyn-y-Weddw coed/coexist symposium 14.09.24 .
13. Free event. Full programme details and registration via eventbrite
14. Details about each speaker can be found here.
15. Publicity Images
16. The symposium will be presented bi-lingually.
17. The symposium will be filmed by Culture Colony.
18. The second phase of the project will include new commissions by a selected group of artists which will be documented along each creative journey and the third phase will include a presentation of new work in an exhibition alongside a series of engagement projects.
19. Junko Mori is represented by Adrian Sassoon.

**Media Contacts**

Gwyn Jones, Director, Plas Glyn-y-Weddw - Gwyn@oriel.org.uk
Menna Thomas, Freelance Engagement & Marketing Officer - menna@oriel.org.uk
Alex Boyd Jones, Freelance Curator - alex@oriel.org.uk

**Plas Glyn-y-Weddw**

Wales' oldest art gallery. Nestling in the village of Llanbedrog on the Llŷn Peninsula, in an area of outstanding natural beauty, the Gothic style Mansion was built in 1857 as a Dower house for Lady Elizabeth Jones Parry of the Madryn Estate. The Madryn Family had a substantial art collection and the mansion was designed to purposely house her/the collection. Subsequently, Cardiff entrepreneur Solomon Andrews seized upon the opportunity at the Madryn Estate sale of 1896 to purchase Plas Glyn-y-Weddw and turn it into a public arts venue. Plas Glyn-y-Weddw is now much more than an art gallery; it's an arts and heritage centre of national importance, fusing art, nature and culture through a wide range of activities. It is a revenue client of Arts Council of Wales and has been chosen as one of the 9 satellite venues across Wales for the groundbreaking National Contemporary Art Gallery for Wales.

**Lead Artist Biographies**

**Junko Mori**

Born in Yokohama, Japan in 1974. Her core concept, "growing forms through repetition" evolved around graduation from Camberwell College of Arts, London in 2000. She simplified her practice and developed more sculptural forms through using traditional blacksmithing techniques. She set up her workshop in Pen Llŷn in 2010, where she is totally surrounded by inspirational nature. Her works are in many international museums, including the British Museum, National Museum of Scotland and Honolulu Museum Art. www.junkomori.com

**John Egan**

John Egan works through the name Making Little which is grown out of a deep appreciation of the natural environment, and his designs are linked directly to it. He seeks to make beautiful long lasting objects and one off pieces, thereby locking carbon into each object made. He only uses locally sourced material, which means the footprint of every object is small and works in harmony with its surroundings. The environment and his impact on it, are his guiding principles and shape his designs.

**Funders / Sponsors**

**Ecoamgueddfa Llŷn** has sponsored this symposium.

ecoamgueddfa